TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# BTEC Diploma Sylfaen Genedlaethol mewn Gwyddoniaeth Gymhwysol Lefel 3



**Yn gryno**

Mae tasgau a dyddiadau cau ar y cwrs hwn wedi eu seilio ar ofynion, gweithgareddau a sefyllfaoedd realistig sy’n eich paratoi tuag at ddyfodol mewn Addysg Uwch neu'r gweithle. Rhaglen ddwy flynedd yw hon.

Ymdrinnir ag unedau cemeg, bioleg a ffiseg ac unedau eraill fydd yn cyffwrdd ar sgiliau ymarferol, yn ogystal ag iechyd a diogelwch mewn amgylchedd labordy, gyda digon o gyfle i ddatblygu sgiliau ymarferol.

**Dyma'r cwrs i chi os...**

...rydych eisiau cwrs ymarferol, sy'n gysylltiedig â gwaith

...mae gennych ddiddordeb brwd mewn gwyddoniaeth

...rydych yn ysu am yrfa mewn maes gwyddonol

...rydych eisiau gweithio o fewn y GIG neu feysydd iechyd neu wyddonol perthnasol

**Beth fyddaf yn ei wneud?**

Blwyddyn 1:

Uned 1: Egwyddorion a Chymwysiadau Gwyddoniaeth I (asesiadau allanol, arholiadau tua dechrau mis Mehefin fel arfer).
Uned 2: Gweithdrefnau a Thechnegau Gwyddonol Ymarferol (asesiadau mewnol).
Uned 3: Sgiliau Ymchwilio Gwyddonol (asesiadau allanol, arholiadau ym mis Ebrill/Mai fel arfer).

Uned 4: Technegau Labordy a'u Defnydd (asesiadau mewnol).

+ 2 uned ychwanegol, ddewisol a ddewisir gan diwtoriaid y cwrs (asesiadau mewnol).

Drwy gwblhau'r cymhwyster ar ddiwedd y flwyddyn gyntaf, byddwch yn cyflawni Diploma Sylfaen Genedlaethol L3 BTEC mewn Gwyddoniaeth Gymhwysol.

Blwyddyn 2:

Uned 5: Egwyddorion a Chymwysiadau Gwyddoniaeth II (asesiadau allanol, arholiadau tua dechrau mis Mehefin fel arfer).
Uned 6: Prosiect Ymchwiliol (asesiadau mewnol).
Uned 7: Materion Cyfoes Gwyddoniaeth (asesiadau allanol, arholiadau tua dechrau mis Mehefin fel arfer).

+ 4 uned ychwanegol, ddewisol a ddewisir gan diwtoriaid y cwrs (asesiadau mewnol).

Byddwch yn dewis unedau yn rhai o feysydd eraill bioleg, cemeg a ffiseg i'ch cefnogi i symud ymlaen i gyrsiau gwyddoniaeth gymhwysol addysg uwch, ac i gysylltu â meysydd galwedigaethol perthnasol. Drwy gwblhau'r cwrs, byddwch yn cyflawni:

Lefel 3 mewn Gwyddoniaeth Gymhwysol
Cymwysterau ategol priodol i ehangu eich set sgiliau
Gweithgareddau Sgiliau
Mathemateg a Saesne

# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

**Beth a ddisgwylir ohonof i?**

I gofrestru, rydych angen o leiaf 5 TGAU gradd C neu uwch, gan gynnwys mewn pwnc gwyddoniaeth a Mathemateg/Rhifedd neu Gymraeg/Saesneg Iaith Gyntaf; neu gymhwyster Diploma Lefel 2 priodol ar radd Teilyngdod gyda TGAU gradd C neu uwch mewn Mathemateg/Rhifedd, Cymraeg/Saesneg Iaith Gyntaf.

Mae ymrwymiad llawn i bresenoldeb yn angenrheidiol. Mae dangos parch tuag at eraill, brwdfrydedd am y pwnc a hunan gymhelliant yn nodweddion hanfodol rydym yn disgwyl eu gweld ym mhob un o'n dysgwyr. Byddwch yn cael eich asesu yn barhaol ac mae disgwyl eich bod yn parhau gyda'ch astudiaethau a'ch gwaith cwrs yn ystod eich amser eich hun.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

O gwblhau'r ail flwyddyn yn llwyddiannus, mae'n bosib y gallech symud ymlaen i wneud HND neu gwrs gradd gwyddoniaeth neu wyddorau biofeddygol.

Cyfleoedd gyrfa yn gweithio mewn labordai gwyddoniaeth a gweithgynhyrchu.

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Darperir yr holl PPE gan y coleg.